COFNODION CYFARFOD Y CYD BWYLLGOR AMLOSGFA LLANGRALLO A GYNHALIWYD YN SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD GWENER, 14 MEDI 2018, AM 14:00

Presennol

Y Cynghorydd R Turner – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Edwards | G John | AA Pucella | JC Spanswick |
| JE Williams | RE Young | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

G Cox, G Hopkins a/ac DBF White

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Adele Ahearn | Cyfrifydd |
| Joanna Hamilton | Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth a Chofrestrydd |
| Zak Shell | Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth |

32. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

33. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Y dylid cymeradwyo cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor Amlosgfa Llangrallo, dyddiedig 22 Gorffennaf 2018, fel cofnod gwir a chywir.

34. GWOBR Y FANER WERDD

Cyflwynodd y Clerc a'r Swyddog Technegol adroddiad, a'i bwrpas oedd hysbysu'r Cyd-bwyllgor am gais llwyddiannus Amlosgfa Llangrallo ar gyfer Gwobr y Faner Werdd yn 2018.

Rhoddodd yr adroddiad wybodaeth gefndirol o ran y math o Wobr oedd y Faner Werdd, yn ogystal â chadarnhau bod Amlosgfa Llangrallo wedi derbyn ei gwobr gyntaf o'r fath yn 2010 ac wedi parhau i dderbyn y wobr hon yn flynyddol ar ôl hynny.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth a'r Cofrestrydd fod yr Amlosgfa wedi bod yn llwyddiannus eto yn diogelu'r wobr fawreddog hon a gydnabyddir yn genedlaethol am safon y gofal a'r gwaith o gynnal a chadw'r safle a'r tiroedd, ac felly'n cadarnhau'r ymrwymiad i ddarparu safonau uchel, a all gael eu gwerthfawrogi gan yr holl ymwelwyr.

Ychwanegodd y casglwyd y wobr o seremoni a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa ar 18 Gorffennaf 2018, ac ar 25 Gorffennaf 2018 cyhoeddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ddatganiad i'r wasg i hysbysu'r cyhoedd am lwyddiannau Gwobr y Faner Werdd.

Daeth i ben drwy ddweud bod angen gwneud cais blynyddol am y Wobr, ac felly byddai cyflwyniad pellach yn cael ei wneud ym mis Ionawr 2019.

Diolchodd y Clerc a'r Swyddog Technegol y tîm yn Amlosgfa Llangrallo am eu gwaith caled yn cadw statws y Faner Werdd o flwyddyn i flwyddyn ers 2010.

Gwnaeth y Cadeirydd ac Aelod y Cabinet dros Gymunedau ailadrodd y farn hon ar ran y Cyd-bwyllgor.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyd-bwyllgor wedi nodi, â phleser, llwyddiant yr Amlosgfa yn diogelu Gwobr y Faner Werdd unwaith eto yn 2018.

35. YMWELIAD GAN FFEDERASIWN YR AWDURDODAU CLADDU AC AMLOSGI

Cyflwynodd y Clerc a'r Swyddog Technegol adroddiad, a oedd yn hysbysu'r Cyd-bwyllgor ynghylch canlyniad ymweliad arolygu gan Ffederasiwn yr Awdurdodau Claddu ac Amlosgi a gynhaliwyd ar 3 Gorffennaf 2018.

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Profedigaeth a'r Cofrestrydd fod Ffederasiwn yr Awdurdodau Claddu ac Amlosgi wedi'i ffurfio yn 1924, a bod ei God Ymarfer yn gosod safonau perfformio ar gyfer amlosgfeydd. Roedd Amlosgfa Llangrallo wedi bod yn aelod o Ffederasiwn yr Awdurdodau Claddu ac Amlosgi ers iddi agor yn 1971, ac roedd yn gweithredu'n unol â'i God Ymarfer, fel sy'n ofynnol ar gyfer pob awdurdod sy'n aelod.

Parhaodd trwy nodi, ym mis Gorffennaf 2018, fod Amlosgfa Llangrallo wedi cael ymweliad gan Swyddogion Ffederasiwn yr Awdurdodau Claddu ac Amlosgi er mwyn asesu a oedd yr amlosgfa'n glynu wrth ofynion rhannau amrywiol o ddeddfwriaeth a oedd yn ymwneud ag amlosgi, yn ogystal â chydymffurfio â'r Cod Ymarfer Amlosgi a safonau cyffredinol y gwasanaeth a ddarperir i'r sawl sy'n galaru.

Cyfeiriodd Aelodau at baragraff 4.2 yr adroddiad, a oedd yn amlinellu'r hyn a arolygwyd yn ystod yr ymweliad. Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Profedigaeth a'r Cofrestrydd wrth yr aelodau fod yr arolygiad diwethaf wedi'i gynnal 12 mlynedd yn ôl.

Roedd canfyddiadau'r Ffederasiwn wedi'u hatodi yn Atodiad A i'r adroddiad, ar ffurf llythyr ac adroddiad, a oedd yn gofnod cadarnhaol dros ben heb unrhyw sylwadau negyddol nac argymhellion, ac yn cydnabod bod Amlosgfa Llangrallo yn gyfleuster canmoladwy wedi'i gefnogi gan dîm effeithiol o weithwyr.

Roedd paragraff 4.4 yr adroddiad yn amlinellu rhai materion hynod gadarnhaol a ddeilliodd o'r Adroddiad Arolygu.

Gwnaeth y Cadeirydd, ar ran y Cyd-bwyllgor, roi canmoliaeth unwaith eto i'r adroddiad ac ymdrechion y staff yn y safle i sicrhau ei fod yn gweithredu mewn modd mor effeithiol ac effeithlon.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyd-bwyllgor wedi nodi'r adroddiad.

36. GWASANAETH NADOLIG

Cyflwynodd y Clerc a'r Swyddog Technegol adroddiad, a oedd yn hysbysu'r Cyd-bwyllgor am drefniadau ar gyfer Gwasanaeth Nadolig 2018.

Cadarnhaodd yr adroddiad mai dydd Iau 13 Rhagfyr 2018 fyddai'r dyddiad ar gyfer hyn, gyda'r trefniadau yn cynnwys pwy fyddai'n arwain y Gwasanaeth a phwy fyddai'n darparu cymorth cerddorol a nodir ym mharagraff 4.1 (yr adroddiad).

Cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaethau Profedigaeth a'r Cofrestrydd y byddai'r Gwasanaeth yn cael ei hysbysebu yn y modd arferol gan gynnwys gwahoddiadau yn cael eu hanfon at Aelodau ac urddasolion eraill, maes o law.

Daeth â'i hadroddiad i ben drwy ddweud, yn ôl yr arfer, mai'r bwriad oedd y byddai'r elw ariannol a wnaed ar y noson yn cael ei roi i gronfa elusen Maer Cadeirydd y Cyd-bwyllgor.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyd-bwyllgor yn cymeradwyo'r cynigion yn yr adroddiad.

37. DATGANIAD MONITRO REFENIW 1 EBRILL I 30 MEHEFIN

Cyflwynodd y Trysorydd adroddiad, a oedd â'r bwriad o hysbysu'r Cyd-bwyllgor am fanylion incwm a gwariant ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol 2018-19, a rhoi rhagamcaniad o'r alldro terfynol.

Cyfeiriodd Systemau Datganiadau'r Cyfrifwyr a'r Cyd-bwyllgorau yr Aelodau at Dabl 1ym mharagraff 4.1yr adroddiad a oedd yn nodi manylion incwm a gwariant ar gyfer Ebrill i Fehefin 2018, gan gynnwys yr alldro ragamcanol ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Dangosodd y Tabl uchod mai'r alldro ragamcanol ar gyfer 2018-19 fyddai £422,000 ar ddiwedd y flwyddyn.

O dan y Tabl uchod yn yr adroddiad, rhoddwyd esboniad am yr amrywiant rhwng rhagamcanion y gyllideb a'r alldro ragamcanol, a oedd yn cynnwys incwm ffioedd a thaliadau ychwanegol rhagamanol o £57,000, a oedd yn cynnwys Ffioedd Amlosgi (£52,000) a'r Grant Ffioedd Claddu Plant gan Lywodraeth Cymru (£5,000)

Yn dilyn hynny, cyfeiriodd Systemau Datganiadau'r Cyfrifwyr a'r Cyd-bwyllgorau at baragraff 4.3 yr adroddiad, a chyfeirio at y Datganiad Blynyddol ar gyfer 2017-18 (Atodiad 1 yn yr adroddiad) a gyflwynwyd i Swyddfa Archwilio Cymru ddiwedd Mehefin 2018, gan ddangos gwarged o £177,000 ar gyfer y flwyddyn, a balans cronedig o £1,259,000. Mae Swyddfa Archwilio Cymru nawr wedi ysgrifennu i gadarnhau bod y Datganiad wedi'i archwilio (Atodiad 2).

Roedd gwall yn ffigur cymharol 2016-17 ar gyfer cyfanswm y benthyciad, a ddangosodd ffigur o £79,784 yn hytrach na £78,784. Esboniodd fod y ffigur hwn at ddibenion cymharu yn unig, ac nad yw'n effeithio ar ffigurau 2017-18.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyd-bwyllgor wedi nodi'r adroddiad, ac wedi cytuno i gymeradwyo ac ail-lofnodi'r Datganiad Blynyddol diwygiedig ar gyfer 2017-18.

38. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 14:30